

2.1.1 (c) Datblygiad dynol: Ffactorau sy'n effeithio ar Dwf, Datblygiad a Lleisiant

At yr arholiad, bydd angen i chi ddeall sut gall y gwahanol ffactorau gydberthyn ac effeithio ar les unigolyn, yn gadarnhaol neu'n negyddol drwy eu cylchred bywyd.

Y ffactorau corfforol

- gall etifeddiad genynnol fod mor syml â lliw y llygaid a'r gwallt neu'n ffactorau etifeddiad genynnol cymhlethach fel rhagdueddiad i gyflyrau meddygol, a rhai mathau o salwch e.e. ffibrosis cystig a syndrom Down
- deiet, maeth a hydradiad, gan gynnwys bwydo ar y fron, bwydo o'r botel, diddyfnu
- Y math o weithgaredd corfforol a faint ohono e.e. manteision ymarfer corff a'r risgiau o wneud ychydig iawn yn unig neu ddim ymarfer corff
- y cyfleoedd i chwarae
- y profiad o salwch neu glefydau – mae effeithiau corfforol i bob salwch, rhai'n effeithiau tymor byr a rhai'n effeithiau tymor hir
- anabled.

Y ffactorau amgylcheddol

- cyflwr tai
- argaeledd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau plant
- llygredd – cemegol
- sŵn e.e. cerddoriaeth uchel
- ymbelydredd, aer, dŵr e.e. carthion.

Y ffactorau economaidd

- incwm – cyflog, budd-daliadau, cynilion, biliau, dyledion, tlodi
- gwell dillad
- y gallu i brynu bwydydd iachach a chael deiet iachach
- eiddo materol (chwenychiadau ac anghenion).

Mae

31%

o blant Cymru yn byw ar aelwyd dlawd

Y ffactorau cymdeithasol ac emosiynol

- rhywedd
 - teulu (math, maint a ffordd o fyw)
 - perthnasoedd, gan gynnwys perthnasoedd teuluol (â rhieni a brodyr a chwiorydd, ac fel rhieni), ffrindiau, perthnasoedd agos a rhywiol, perthnasoedd gwaith
 - profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
 - cam-drin, gan gynnwys ymddygiad sy'n rheoli/gorfodi yn y teulu a/ neu mewn perthnasoedd personol agos rhywiol
 - profiadau addysgol
 - cyflogaeth e.e. manteision bod mewn gwaith o'u cymharu â'r effeithiau niweidiol sy'n gysylltiedig â diweithdra
 - amrywiaeth ddiwylliannol a hiliol e.e. manteision a heriau byw mewn cymdeithas amlddiwylliannol
- Mae **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** yn brofiadau trawmatig sy'n digwydd cyn bod rhywun yn 18 oed ac maen nhw'n gallu effeithio ar unigolion drwy gydol eu cyfnod fel oedolion.

Gall amodau byw gwael arwain at effeithiau negyddol fel

Lleithder – problemau resbiradol
Gorlenwi – gorbryder/iselder/straen
Gwresogi gwael/diffyg gwresogi – annwyd/ffliw/iechyd gwael
Dim manau agored/gardd – lefelau ffitrwydd is oherwydd diffyg ymarfer corff

Cam-drin – 5 gwahanol fath

1. Emosiynol (ariannol)
2. Corfforol
3. Rhywiol
4. Seicolegol
5. Esgeulustod

Effeithiau negyddol llygredd sŵn

Straen/gorbryder, pwysedd gwaed uchel, amharu ar batrymau cysgu, colli clyw.

Gall **perthnasau** perthnasau gael effeithiau **cadarnhaol** a/neu **negyddol** e.e.

Dibynadwy ✓

Yn gallu brifo'ch teimladau ✕